Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Trwyddedu Morol yng Nghymru
# Rolau a Chyfrifoldebau

Chwefror 2023

# Cynnwys

**Diben** **3**

Trwyddedu Morol 3

**Rolau a chyfrifoldebau** **3**

Gweinidogion Cymru 3

Gorfodi 3

Cyfoeth Naturiol Cymru 4

**Ymrwymiad Gweinidogion Cymru** **4**

**Llywodraethu ac Adrodd** **5**

Delwedd ar y Clawr: Croeso Cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46575, ISBN digidol 978-1-80535-413-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Diben

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â gweithredu trwyddedu morol yng Nghymru. Mae'r ddogfen hefyd yn amlinellu uchelgeisiau Gweinidogion Cymru ar gyfer trwyddedu morol, ac ymrwymiad i wella'n barhaus y broses ar gyfer sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben yn y dyfodol.

### Trwyddedu Morol

Cafodd y broses trwyddedu morol ei sefydlu gan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ('y Ddeddf'). Mae'r broses, a amlinellir yn Rhan 4 o'r Ddeddf, yn rheoli gweithgareddau penodol yn yr amgylchedd morol[1] i sicrhau bod yr amgylchedd ac iechyd pobl yn cael eu diogelu, ac nad yw gweithgareddau'n tarfu ar ddefnyddwyr cyfreithlon eraill y môr. Mae trwyddedu morol yn helpu i sicrhau bod ein moroedd yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn unol â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru, gan gefnogi nodau llesiant Cymru a chyflawni'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r broses wedi cael ei sefydlu'n dda, ond bydd yn parhau i ddatblygu, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol drwy reoli adnoddau mewn modd cynaliadwy a sicrhau bod ymgeiswyr yn elwa ar brofiad o ansawdd uchel.

# Rolau a chyfrifoldebau

### Gweinidogion Cymru

Yn ôl y Ddeddf, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu morol a'r corff apelau ar gyfer dyfroedd Cymru[2]. Yn 2013, dirprwyodd Gweinidogion Cymru y gwaith o weinyddu a phenderfynu ynghylch ceisiadau trwyddedu morol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)[3].

Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am bennu'r cyfeiriad polisi cyffredinol ar gyfer trwyddedu morol, rheoli apelau yn erbyn penderfyniad ynghylch trwyddedu morol, a llunio is-ddeddfwriaeth i gefnogi'r broses (er enghraifft, gosod ffioedd a thaliadau ymgeisio a gweithgareddau sy'n cael eu hesemptio). Mae cyfrifoldebau hefyd yn cynnwys adolygu is-ddeddfwriaeth o bryd i'w gilydd i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â thrwyddedu morol yn nyfroedd Cymru. Mae gorfodi yn cael ei wneud gan Swyddogion Gorfodi Morol Llywodraeth Cymru.

### Gorfodi

Mae gan Swyddogion Gorfodi Morol amrediad o bwerau mewn perthynas â thrwyddedu morol. Amlinellir y pwerau hyn yn Rhan 4 o'r Ddeddf[4]. Yn gyffredinol mae gan Swyddogion Gorfodi Morol ddwy rôl weithredol:

1) Archwilio prosiectau, gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg, sicrhau bod deiliaid trwyddedau'n cydymffurfio â thelerau ac amodau trwydded,

---

1 www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/23/section/66

2 www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/23/part/4/chapter/5/crossheading/interpretation

3 Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013, Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2017

4 www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/23/part/4/chapter/3

2) Cymryd camau gorfodi (erlyn) os nad oes trwydded ar waith pan fydd angen, neu os torrir amodau trwydded, yn unol ag Adran 85 o’r Ddeddf; mae hyn yn cynnwys trafod â CNC i benderfynu a oes unrhyw amodau wedi'u torri ai peidio.

### Cyfoeth Naturiol Cymru

Cafodd CNC ei sefydlu o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Mae ganddo ddwy rôl mewn perthynas â thrwyddedu morol.

Mae'r Tîm Trwyddedu Morol yn penderfynu, ar ran Llywodraeth Cymru, ynghylch ceisiadau am drwyddedau morol, gyda chynghorwyr technegol yn rhoi cyngor i'r Tîm Trwyddedu Morol yn rhinwedd ei swyddogaeth fel y Corff Cadwraeth Natur Statudol ar gyfer dyfroedd glannau Cymru. Mae gan CNC drefniadau llywodraethu ar waith i sicrhau bod gwahaniaeth clir rhwng ei gyfrifoldebau am drwyddedu morol a'i swyddogaethau eraill.

Wrth iddo gyflawni ei gyfrifoldebau dirprwyedig i weinyddu a phenderfynu ynghylch ceisiadau am drwydded forol, ar ran Gweinidogion Cymru, mae CNC yn gwneud hynny yn unol â Rhan 4 o'r Ddeddf ac amrediad eang o ddeddfwriaeth arall er mwyn helpu i sicrhau bod dyfroedd Cymru yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy. Mae Egwyddorion Rheoleiddio yn helpu i arwain ei benderfyniadau.

Er mwyn sicrhau tryloywder wrth wneud penderfyniadau, mae CNC yn cadw cofrestr gyhoeddus fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, sy'n rhoi mynediad cyhoeddus at benderfyniadau a dogfennau sy'n gysylltiedig â cheisiadau. Pan fydd angen, mae datganiadau sefyllfa yn cael eu darparu ar gyfer prosiectau yr ystyrir eu bod o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd, i sicrhau bod partïon â diddordeb yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y broses benderfynu.

Y prif gyswllt ar gyfer ymholiadau am drwyddedau morol:

marinelicensing@naturalresourceswales.gov.uk
naturalresources.wales/permits-and-permissions/marine-licensing/?lang=cy

## Ymrwymiad Gweinidogion Cymru

Mae'r cyfrifoldeb am Drwyddedu Morol yn cael ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru a CNC. Gan weithio mewn partneriaeth, rydym yn sicrhau bod y broses yn **deg, yn addas i'r diben, yn gadarn ac yn dryloyw**. Fel yr awdurdod trwyddedu, uchelgais Gweinidogion Cymru yw i drwyddedu morol fod yn:

- **Ymatebol:** drwy geisio adborth gan ddefnyddwyr ynghylch pa mor dda mae'r broses yn cael ei gweithredu a lle y gellid gwneud gwelliannau, drwy fonitro perfformiad ac adrodd am berfformiad a llwyddiannau.
- **Galluogi:** cymryd yn ganiataol yr angen am ddatblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru fel yr amlinellir yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru, a theilwra ffyrdd o weithio i anghenion ymgeiswyr, gan gydnabod nad yw pob prosiect yr un peth ac nad yw pob sector wedi ennill ei blwyf, a bod angen rhagor o gymorth ar rai a pharodrwydd i fod yn hyblyg wrth wneud gwaith trwyddedu.
- **Hyblyg:** mabwysiadu dull 'dysgu drwy wneud', os nad oes tystiolaeth briodol ar gael ar unwaith, a dysgu oddi wrth brofiad rheoleiddwyr eraill er mwyn datblygu diwylliant o ddysgu er mwyn helpu i feithrin hyblygrwydd wrth wneud penderfyniadau.

- **Effeithlon:** gwneud penderfyniadau amserol, gan weithio gyda chyfundrefnau cydsynio eraill lle bo modd er mwyn manteisio i'r eithaf ar wybodaeth a data sydd eisoes yn bodoli.
- **Edrych tuag at y dyfodol:** rhagweld ac ymateb yn gynnar i newidiadau cymdeithasol, technolegol ac amgylcheddol drwy archwilio tueddiadau a datblygiadau'r dyfodol mewn modd systematig, gan sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn yn cyd-fynd â nhw.
- **Cymesur:** annog ffocws ar y prif effeithiau arwyddocaol, drwy ddileu'r angen i gynnal Asesiadau Effaith Amgylcheddol wrth ymdrin â materion lle mae llai o risg (pan fydd hynny'n briodol a bod tystiolaeth o blaid gwneud hynny), a defnyddio'r arferion gorau sydd ar gael (yng Nghymru a mannau eraill) i lywio penderfyniadau.
- **Tryloyw:** sicrhau bod pawb yn deall y broses trwyddedu morol gan ddefnyddio iaith glir a dealladwy, a thrwy ddarparu eglurder ynghylch rolau, gyda chapasiti ar-lein i alluogi ymgeiswyr a phartïon â diddordeb i ddilyn hynt ceisiadau a chodi unrhyw gwestiynau.
- **Cydweithredol:** canolbwyntio ar atebion, gan greu rhyngweithio ystyrlon sy'n adeiladu ar gyd-ddealltwriaeth, parch a gonestrwydd, a darparu cyngor a chanllawiau clir.

## Llywodraethu ac Adrodd

I sicrhau bod swyddogaeth trwyddedu morol Gweinidogion Cymru yn parhau i helpu i sicrhau bod dyfroedd Cymru yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru a CNC yn mynd ati'n rheolaidd i drafod materion strategol sy'n gysylltiedig â thrwyddedu morol a gorfodi. Maent yn mynd ati ar y cyd i ystyried a chytuno ar gyfleoedd i wella'r broses.

Mae CNC yn adrodd i Weinidogion Cymru am ei waith trwyddedu morol. Mae hynny'n cynnwys diweddariadau ar waith sy'n cael ei wneud i sicrhau effeithlonrwydd ac unrhyw wersi a ddysgir er mwyn llywio gwelliannau yn y dyfodol.